

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru



Welsh Folk Dance Society

CYNLLUN DATBLYGU 2003-2006

1. MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Statws

Mae CDdWC yn elusen gofrestredig ac fe'i cofrestrwyd gyntaf yn 1993.

Dogfen Reoli

Rheolir CDdWC gan ei Chyfansoddiad a gyhoeddwyd gyntaf yn 1986.

Rhif Elusen

1023817

Bancwyr

Lloyds TSB, Bangor

Yswirwyr Indemniad

Endsleigh Brokers

Archwilydd Cyllid Annibynnol

Ymgynghorydd Cyfreithiol

Pwyllgor Gwaith

Gweler y Cyfansoddiad

2. Y CYNLLUN DATBLYGU

Mae'r Cynllun Datblygu CDdWC yn ddarostyngol i gyfansoddiad y Gymdeithas.

Mae'n ddogfen sydd yn amlinellu blaenoriaethau'r Pwyllgor Gwaith o ran gweithredu amcanion CDdWC o fewn cyfnod pendol o amser.

Bydd y Cynllun yn :

- Galluogi CDdWC i osod targedau clir, penodol, cyraeddadwy a mesuradwy
- Dangos yn glir beth y camau mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynllunio i'w cymryd wrth ymgynraedd at y blaenoriaethau a benwyd
- Sicrhau cysondeb drwy amlinellu'n glir i aelodau newydd o'r Pwyllgor Gwaith beth yw amcanion CDdWC.

3. AMCANION CDdWC

Mae'r Cyfansoddiad yn datgan mai prwpas CDdWC yw cyflwyno i'r cyhoedd gyfoeth crefft Dawnsio Gwerin Cymru drwy:

- Ddarparu cyrsiau hyfforddi
- Drefnu digwyddiadau megis gwyliau a chystadlaethau
- Hybu dawnsio cymdeithasol Cymreig
- Gynghori a chefnogi eraill ym mhob agwedd o faes Dawnsio Gwerin Cymru
- Gynhyrchu neu gyhoeddi unrhyw ddeunydd neu gymhorthion addysgu angenrheidiol
- Gyflawni gwaith ymchwil a chynorthwyo ymchwilwyr eraill.

4. DATGANIAD O FWRIAD

ENNYN YNG NGHALONAU A MEDDYLIAU POBL CYMRU YMWYBYDDIAETH O GYFOETH DAWNSIO GWERIN CYMRU

DAWNSIO GWERIN CYMRU

Hyn yn datgan mai prwpas CDdWC yw codi ymwybyddiaeth o berchnogaeth dawnsio gwerin Cymru - i gynnwys cerddoriaeth, arddull, gwisgoedd a chefnidir hanesyddol. Mae'n cydnabod diffyg ymwybyddiaeth pobl Cymry tuag at eu traddodiad dawnsio gwerin ac yn ymroi i'w haddysgu i barchu ac ymfalchio yn y traddodiad.

CALONNAU A MEDDYLIAU

Hyn yn cydnabod fod i'n diwylliant agwedd emosiynol ac ysbrydol. Mae maes dawnsio yw un o'r nodweddion pwysicaf ac unigryw sy'n rhoi inni hunaniaeth diwylliannol. Mae diwylliant traddodiadol yn dibynnu cymaint ar y modd o gyflawni ag ar y manylion technegol. Mae'n hanfodol i bobl Cymru gydnabod gwerth dawnsio gwerin ac ymfalchio ynddo fel rhan o'n diwylliant.

POBL CYMRU

Mae CDdWC yn bodoli er budd holl ddinasyddion Cymru ac yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle posibl i hyrwyddo Dawnsio Gwerin Cymru i godi ei broffil a'i statws ar draws y wlad. Anelwn at ennyn ym mhob cymuned, sefydliad a grŵp yr awydd i ddawnsio.

5. GWELEDIGAETH 2003-2006

- 5.1 Bydd CDdWC yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i hyrwyddo dawnsio gwerin Cymru ym mhob cymuned, sefydliad a grŵp ledled Cymru, ac i wella arddangosiadau a pherfformiadau i'r cyhoedd a'r cyfryngau.
- 5.2 Bydd gwybodaeth yn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach trwy ddulliau cyfathrebu amrywiol gan gynnwys defnydd cynyddol o dechnoleg modern.
- 5.3 Bydd cynnydd amlwg yn niferoedd fydd yn ymddiddori yn nawnsio gwerin Cymru, ac yn enwedig ymhlith y rhai sydd eto i'w hargyhoeddi sef, plant, ieuenctid ac oedolion dan 30 oed.
- 5.4 Bydd timau sy'n ystyried eu hunain yn brif enynwyr diddordeb mewn dawnsio gwerin Cymru yn rhoi yn hael o'u hamser a'u profiad i gefnogi newydd-ddyfodiad i'r maes, ac i'w hannog a'u symbylu i barhau i ddawnsio.
- 5.5 Bydd y cyhoedd yn troi am arweiniad at aelodau allweddol CDdWC yn eu cymunedau, i geisio cyngor a chefnogaeth ac fe gydnabyddir mai dawnsio gwerin Cymru yw'r unig wir ddewis pan fydd eisiau portreadu y ffordd Gymreig o ddawnsio.
- 5.6 Bydd aelodau ifanc brwdfrydig yn cymryd rhan gynyddol mewn arwain mentrau ac agweddau allweddol o waith CDdWC.
- 5.7 Ymchwilir i fanteision ac i ariannu Swyddog Datblygu i:
 - ddenu pobl o bob oed i fwynhau dawnsio gwerin Cymru
 - geisio cyllid i ariannu prosiectau penodol
 - sefydlu 'cartref canolog' i ddawnsio gwerin Cymru ac i CDdWC.
- 5.8 Bydd CDdWC yn trefnu digwyddiad uchelgeisiol cenedlaethol yn enw'r Gymdeithas.
- 5.9 Anogir a chefnogir unigolion, grŵpiau a thimau i arbrofi ac ymchwilio i gefndir, arddull, cerddoriaeth, gwisgoedd a hanes dawnsiau Cymru, yn unol â blaenoriaethau CDdWC. Bydd canlyniad gwaith ymchwil ar gael i bawb, ac fe'i dosberthir yn eang.
- 5.10 Caiff disgyblion holl ysgolion Cymru gyfle i fwynhau'r pleser a'r hwyl o ddysgu symudiadau, patrymau a dawnsiau gwerin Cymru yn unol a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd pob Awdurdod Addysg, Ymgynghorwyr Addysg Gorfforol, ysgol a choleg yn gwbl ymwybodol o fodolaeth hyfforddwyr ac adnoddau CDdWC i'w cefnogi. Bydd athrawon, a darpar athrawon, yn cael eu hysgogi a'u hyfforddi gan ddarparwyr cymwysedig CDdWC.

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru



Welsh Folk Dance Society

NODAU 2003-2006

NODAU

1. RHEOLAETH

- Cyflwynir Cynllun Datblygiad 3 blynedd

2. CYLLID ac ADNODDAU

- Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gost effeithiol ac yn fanwl gywir yn holl waith y Gymdeithas.

3. PWYLLGOR GWAITH

- Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynrychioli aelodau CDdWC.
- Cytunir gyda'r swyddogion beth fydd eu swyddogaeth a'u cyfrifoldeb yn natblygiad y Gymdeithas
- Bydd y cyfarfodydd yn rhedeg yn llyfn a diwastraff
- Sefydli'r perthynas gadarn rhwng y Pwyllgor Gwaith, y timau dawns a'r aelodau fel eu bod oll yn gwybod beth yw nod CDdWC a bod iddynt ran yn natblygiad y Gymdeithas.
- Bydd yr aelodau yn a) derbyn y Cyfarfod Blynyddol fel fforwm defnyddiol i leisio barn a chynnig syniadau a b) yn ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn

4. AELODAU IFANC

- Bydd aelodau ifanc brwdfrydig yn cymryd rhan gynyddol mewn arwain mentrau ac agweddau allweddol o waith CDdWC.

5. HYRWYDDO A MARCHNATA

- Bydd dawnsio gwerin Cymru yn cael ei farchnata fel yr unig gwir ddewis ym mhob rhan o Gymru ac ar draws pob ystod oedran.

6. AELODAETH

- Gwneir CDdWC yn fwy atyniadol i'r cyhoedd, a chynyddir yr aelodaeth yn sylweddol

7. SWYDDOG DATBLYGU

- Ymchwilir i fanteision ac ariannu Swyddog Datblygu i ddenu pobl o bob oed i fwynhau dawnsio gwerin Cymru, I geisio cyllid i ariannu prosiectau penodol ac I sefydlu 'cartref canolog' i ddanwsio gwerin Cymru ac i CDdWC.

8. STATWS CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL

- Sicrheir proffil arwyddocaol uwch i waith CDdWC gan asiantaethau cenedlaethol a rhyngwladol a phawb sy'n ymddiddori mewn dawnsio gwerin.

9. PARTNERIAETHAU

- Manteisir ar bob cyfle i gynnwys a/neu weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau eraill. Ee Gwasaneth Iechyd - cadw'n heini, AuALI

10. CYNGHORI A CHEFNOGI

- Sicrheir ym mhob rhan o Gymru aelodau unigol allweddol a adwaenir fel dawnsywyr gwerin profiadol ac a gydnabyddir gan bob asiant dylanwadol fel cynrychiolwyr swyddogol CDdWC i gynghori a chefnogi ynghylch agweddau o Ddawnsio Gwerin Cymru.
- Bydd y cynrychiolwyr yn gyfarwydd â gweithgareddau cyffredinol eu cymunedau a gallant ennyn diddordeb y cyhoedd ar bob cyfle posibl.
- Ennyn diddordeb timau dawnsio gwerin Cymru yng ngwaith CDdWC
- Cydnabyddir y timau fel prif symbylwyr diddordeb fel eu bod yn barod a hael o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi a chalonogi dawnsywyr newydd a'u hannog i barhau i ymddiddori yn nawnsio gwerin Cymru.

11. CYRSIAU

- Sicrheir fod holl AuALI Cymru, Ymgynghorwyr Addysg Gorfforol, penaethiaid adrannau ysgolion a cholegau yn gwybod am fodolaeth darparwyr dawns CDdWC ac o'r deunyddiau sydd ar gael i'w cefnogi i gyflwyno dawns fel elfen orfodol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Ymestynir y bartneriaethau presennol a lledaenu gwybodaeth am arferion da i bob coleg yng Nghymru.
- Sicrheir fod cwrs CDdWC yn atyniadol ymarferol i aelodau o bob oedran ac yn fodd i sicrhau eu diddordeb a'u datblygiad.

12. ADDYSG

- Caiff disgyblion ysgolion Cymru gyfle i fwynhau'r pleser a'r hwyl o ddysgu symudiadau, patrymau a dawnsiau gwerin Cymru yn unol a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Bydd pob AALI, Ymgynghorwyr Addysg Gorfforol, ysgol a choleg yn gwbl ymwybodol o fodolaeth hyfforddwyr ac adnoddau CDdWC i'w cefnogi.
- Bydd athrawon, a darpar athrawon, yn cael eu hysgogi a'u hyfforddi gan ddarparwyr cymwysedig CDdWC.

13. EISTEDDFOD

- [Archwilir y posibiladau o broffil uwch i Ddawnsio Gwerin Cymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod drwy gystadlaethau, arddangosfeydd ac amrywiol weithgareddau.](#)

14. GWYLIAU

- [Arddangos mewn digwyddiad uchelgeisiol cenedlaethol pob agwedd o waith CDdWC eg Cyngerdd, Cyngres Celtaidd bob dwy flynedd](#)
- Hysbysebwr gwyliau dawnsio gwerin Cymru mor eang ag y bo modd, a sicrhau cyhoeddusrwydd effeithiol gan y cyfryngau
- Cefnogir ieuencid CDdWC i drefnu a chyflwyno gweithdy cenedlaethol blynyddol i hyfforddi dawnsiwr ifanc.
- Cefnogir Gŵyl Plant Genedlaethol ym mhob rhan o Gymru
- Annogir pob sir i lwyfannu gŵyl plant flynyddol

15. DAWNSIO CYMDEITHASOL

- Gweithiwn i ddatblygu diddordeb a chefnogaeth mewn dawnsio gwerin.
- Cefnogir grwpiau a chlybiau presennol; sefydlir grwpiau newydd pan fo cyfle a'u hangen, ac anogir galwyr a bandiau i gynnal 'twmpathau'dawns cymdeithasol.

16. CYNHYRCHU, CYHOEDDI A GWERTHU DEUNYDDIAU

- Gwella cynnwys a delwedd y cylchgrawn *Dawns* er mwyn cystadlu'n ffafriol gyda safon cyhoeddiadau cymdeithasau eraill
- Manteisiir ar bob cyfle i hysbysebu gwaith CDdWC drwy ein gwefan.
- Rhoir ystyriaeth i ddatblygu cyhoeddiad ar Ddawnsio Gwerin Cymru fydd yn apelio at ac yn denu plant.
- Blaenoriaethwn gyhoeddiadau a gwerthwn ein cynnyrch mor eang ag y bo modd.

17. GWISGOEDD TRADDODIADOL DILYS

- Rhoir arweiniad ar y defnydd o wisgoedd mewn cyhoeddiad ar gyfer dawnsio gwerin.

18. GWAITH YMCHWIL

- Cyhoeddir a dosberthir i aelodau gatalog o'r eitemau cyfredol sydd yn llyfrgell CDdWC, a bydd unrhyw ychwanegiadau yn cael eu rhestru ar y wefan ac yn ein Cylchgrawn *Dawns* cyn gynted ag y bo modd.
- Diogelir atgofion yr aelodau mwyaf profiadol ar dâp i'r archifdy.

19. TRAFODAETH

- Diogelir yr arddull *Gymreig* o ddawnsio a'r hyn sydd yn berthnasol iddo - cerddori, gwisgoedd ayb

20. ANRHYDEDDU A GWERTHFAWROGI

- Trafodir y posibiladau o anrhydeddu cyfraniad unigryw i ddawnsio gwerin Cymru ac/neu i gyfraniad arbennig iawn i waith CDdWC